

Diweddariad am y brechlyn Vaccination Update



Cylchlythyr Wythnosol Weekly Newsletter

CYNNYDD WYTHNOSOL 15 Tachwedd - 21 Tachwedd 2021

22 Tachwedd 2021 Rhifyn 45

Nid ydym yn gadael unrhyw un ar ôl

Os ydych yn 12 oed neu hŷn, ac yn dal i ddisgwyl i gael eich **dos cyntaf YN UNIG**, ewch i unrhyw ganolfan ar draws y Bwrdd Iechyd heb apwyntiad, neu trefnwch apwyntiad i gael eich brechu drwy ein tîm cyswllt trefnu ar 0300 303 1373

Mae clinigau galw-i-mewn ar gael ar gyfer brechiadau dos cyntaf yn unig.

Pwy fydd yn cael eu brechu'r wythnos hon?

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ganolbwyntio ar ddarparu brechiadau Atgyfnerthu Covid-19 i bobl dros 60 oed.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi brechu 9,439 o drigolion rhwng 60 a 64 oed.

#HelpwchNiIchHelpuChi drwy fynd i'r apwyntiad brechu cyntaf sy'n cael ei roi i chi'n brydlon.

Ymhle y caf gynnig brechiad?

Bydd trigolion cymwys sy'n byw ym **Mlaenau Gwent, Torfaen, Bwrdeistref Sirol Caerffili neu Gasnewydd** yn cael gwahoddiad gan y Bwrdd Iechyd i fynychu Canolfan Brechu Torfol yng Nglynebwy, Pontllanfraith, Casnewydd neu Gwmbrân.

Bydd trigolion cymwys sy'n byw yn **Sir Fynwy** yn cael gwahoddiad gan y Bwrdd Iechyd i fynd am frechlyn, naill ai mewn Canolfan Frechu neu yn eu meddygfa Meddyg Teulu.

Dewch o hyd i'ch Clinig Brechu Covid-19 agosaf drwy fynd i:
<https://abuhb.nhs.wales/coronavirus/covid-19-vaccine/our-vaccination-centres/>



BOOSTER VACCINATION FIGURES

(tan 10pm 21/11/2021)

Age 80 and over	23,789	81.5%
75-79 years	19,991	84.1%
70-74 years	26,867	82.0%
65-69 years	23,023	70.5%



Cafodd Bryan ei frechiad atgyfnerthu yn Stadiwm Cwmbrân. Dywedodd "Rwy'n ddiolchgar iawn i bawb sy'n rhan o'r rhaglen brechu torfol am eu gwaith. Mae'n rhaglen heb ei hail."

Mae coronefeirws yn parhau i fod yn risg difrifol i iechyd. Dylech barhau i fod yn ofalus i helpu i amddiffyn eich hun a phobl eraill.

- Os byddwch yn cwrdd dan do, gadewch awyr iach i mewn. Mae cwrdd yn yr awyr agored yn fwy diogel
- Gwisgwch orchudd wyneb mewn lleoedd gorlawn a chaeedig lle rydych chi'n dod i gysylltiad â phobl nad ydych chi fel arfer yn cwrdd â nhw
- Ewch am brawf a hunanydyswch os oes angen
- Ewch i gael eich brechu, os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny

Galw ar fenywod beichiog:

Ffoniwch 0300 3031373 i drefnu eich apwyntiad am frechlyn.

Ceir rhagor o wybodaeth yma: www.rcog.org.uk/covid-vaccine

PÀS COVID Y GIG

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i bobl Cymru wneud cais am BÀS COVID, a fydd yn sicrhau mynediad i ddigwyddiadau a lleoliadau.

Gallwch gael Pàs COVID y GIG ar-lein: www.nhs.uk/conditions/coronavirus-covid-19/covid-pass/

Neu ffoniwch: **0300 303 5667**

Peidiwch â ffonio 0300 303 5667 os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach.

Canllaw gan y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) i bobl rhwng 16 ac 17 oed, 40 oed a hyn

Mae'r Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) wedi dweud y dylid cynnig brechlyn atgyfnerthu mRNA i bob oedolyn rhwng 40 a 49 oed 6 mis ar ôl eu hail ddos, o 15 Tachwedd ymlaen, waeth pa frechlyn a gawsant ar gyfer eu dos cyntaf a'u hail ddos, yn ogystal â phobl dros 50 oed a phobl sydd mewn risg uwch o ddal coronefeirws (COVID-19).

Mae'r JCVI hefyd yn cynghori y dylid cynnig ail ddos o'r brechlyn Pfizer i unigolion rhwng 16 ac 17 oed, nad ydynt mewn grŵp risg. Dylid rhoi'r ail frechlyn 12 wythnos neu fwy ar ôl y dos cyntaf, neu 12 wythnos ar ôl cael canlyniad prawf COVID-19 positif - pa bynnag un sy'n berthnasol.

Arhoswch i gael gair am eich apwyntiad yn hytrach na chysylltu â'r Bwrdd Iechyd. Cysylltir â'r unigolion cymwys ar yr adeg gywir, a chânt eu galw i gael Brechlyn Covid-19.



Dyma lun o Thomas sy'n 17 oed yng Nghanolfan Casnewydd yn cael ei ail frechlyn Covid-19.

Dywedodd Thomas: "Rydych angen ail ddos er mwyn gallu gwneud sawl peth. Cymerwch y brechlyn - mae ei angen arnoch!"



Mae Katie yn Rheolydd Gweinyddol, a dechreuodd weithio o fewn y Rhaglen Brechu Torfol o'r cychwyn cyntaf fel cynorthwydd gweinyddol. Mae'n rhan o'r tîm hyd heddiw. Mae bellach yn Rheolydd Gweinyddol yn Stadiwm Cwmbrân ac yn dangos i Carolyn sut mae popeth yn gweithio. Mae Carolyn ar secondiad o dîm Dieteg y Bwrdd Iechyd. Mae'n edrych ymlaen at roi cynnig ar her newydd a gwahanol iawn!

Mae Gwybodaeth ynghylch Pas Covid y GIG ar gael yn <https://gov.wales/get-your-nhs-covid-pass#section-70608>
Neu dros y ffôn **0300 303 5667**

Am ragor o wybodaeth ynghylch y Brechiad Covid-19, ewch i: <https://abuhb.nhs.wales/coronavirus/covid-19-vaccine/>

Gwybodaeth ynghylch y Brechiad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru: <https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/covid-19-vaccination-information/>